Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

28 Tachwedd 2016

Annwyl Mr Ramsay

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 14 Tachwedd, rwy'n ysgrifennu atoch gyda rhagor o wybodaeth am y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a mewnbwn Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus llawn, cyhoeddwyd Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol ym mis Awst 2015. Mewn ymateb i'r adborth, cafodd y cynllun ei addasu'n ddogfen fyw. Caiff yr wybodaeth ynddo am gyllid ac amseriad yr ymyriadau a restrir yn y cynllun ei diweddaru o dro i dro. Y bwriad yw diweddaru'r cynllun yn y flwyddyn nesaf.

Ni fydd gofyn ymgynghori ar y ddogfen fyw bob tro y caiff ei diweddaru, gan yr ymgynghorir ar yr ymyriadau unigol yn y cynllun ar yr adeg briodol.

Mae Comisiynydd Cenedlaethau Dyfodol Cymru yn cael cynnal nifer o weithgareddau gwahanol. Maent i gyd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Mae swyddfa'r Comisiynydd yn un o'r rheini y gofynnir iddynt am eu barn bob tro y cynhelir ymgynghoriad ar brosiect trafnidiaeth.

Yn gywir

**Simon Jones**
Cyfarwyddwr Trafnidiaeth a Seilwaith TGCh

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Canolfan QED ● QED Centre
Y Brif Rodfa ● Main Avenue
Trefforest ● Treforest
Pontypridd, CF37 5YR

Ffôn ● Tel 02920 826646
james.price@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk